

Un yng Nghrist

“Oherwydd mewn un Ysbryd y cawsom i gyd ein bedyddio i un corff, boed yn Iddewon neu yn Roegiaid, yn gaethweision neu yn rhyddion.” (adn. 13)

Beth am ddarlenn 1 Corinthiaid 12:12–26 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i edrych ar y modd y gall eglwys Antiochia gyfrannu i'n deall o'r hyn ddylai'r Eglwys fod yn yr unfed ganrif ar hugain. Ystyriwch hyn: yr oedd gan yr eglwys yn Antiochia olwg glir iawn ar werth pob person. Doedd yna ddim dosbarth na gwahaniaeth hil yn ymddangos o fewn yr eglwys hon.

Os ydych yn credu fod yr Ysgrythur wedi ei ysbrydoli gan Dduw, yna mae'n siŵr y gwelwch arwyddocâd y ffordd y mae'r Ysbryd yn rhestru'r enwau sydd yn Actau 13:1. “Yr oedd yn yr eglwys oedd yn Antiochia broffwydi ac athrawon, Barnabas a Simeon (a elwid Niger), Lucius o Cyrene, Manaen (un o wŷr llys y Tywysog Herod) a Saul.” Sylwch, fe enwir Barnabas yn gyntaf, a Saul yn ddiwethaf, ac yn y canol mae yna ŵr o'r enw Manaen, sydd, yn ôl cyfieithiad Moffatt, “yn frawd maeth i Herod y tywysog”. Tybed beth fyddai'r Eglwys yn ei wneud heddiw petai'r fath berson yn ymuno â nhw – math o frawd i frenin. Mae'n siŵr y byddent yn rhoi ei enw ar ben y rhestr, ond mae Manaen yma ynghanol y rhestr ac yn dod ar ôl un oedd, mae'n debyg, o Ogledd Affrica – Simeon, a elwid Niger. Ystyr y gair ‘niger’ yw du, ac o'r gair yma mae'r term ‘negro’ yn deillio. Yn ddiweddar, dywedais wrth gynulleidfifa anferth yn Lagos, Nigeria, fy mod yno oherwydd dyn du. Roedd un o'r dynion a arddododd ddwylo ar Paul, gan ei gomisiynu i bregethu'r Efengyl i'r cenhedloedd, yn ddyn du. Dywedais fod gan y gŵr yma ran yn y ffordd y deuthum i glywed yr Efengyl. Bu i bawb yn yr eglwys gymeradwyo.

Mae'n amlwg fod cymdeithas fel hon, oedd heb ffiniau dosbarth a heb unrhyw fath o hiliaeth yn perthyn iddi, wedi blaguro yn Antiochia, a phetai'r Eglwys wedi aros fel hyn trwy ei hanes, mae'n siŵr y byddai wedi dylanwadu yn helaethach ar y byd. Rhaid i ni adfer ysbryd Antiochia os ydym am i bobl ein cymryd o ddifrif.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gen. 11:1–9; Num. 12:1–15; Ioan 17:20–23; Actau 2:5–12

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw seiliau rhagfarn?
2. Beth yw'r allwedd i undod?

Gweddi

Rwy'n diolch i ti, o Dduw, fod dy gariad yn ymestyn at bob dyn. Dyro i ni y cariad sydd yn cyrraedd pawb, ac yn cyrraedd pawb fel rhai cydradd. Cynorthwya ni i symud i'r dyfodol, gan arddangos dy gariad di tuag at bawb, beth bynnag yw lliw eu croen, neu eu cefndir cymdeithasol. Yn enw Iesu. Amen.